Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pennant

**Penybont Fawr**
**Croesoswallt**
**Swydd Amwythig**

**SY10 0NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pennant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pennant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 78 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 66 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 21.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 54.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/09/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r amgylchedd dysgu yn Ysgol Pennant yn un croesawgar a chyfeillgar. Mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol yn fawr ac yn falch iawn o fod yn rhan o'i chymuned. Maen nhw’n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo’n bryderus. Mae natur ofalgar y staff a’r parch y mae disgyblion yn dangos at ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol, sydd wedi’i seilio ar ddatblygu lles a chyfleoedd i ddisgyblion ffynnu. Mae’n arweinydd effeithiol sy’n uchel ei pharch gan yr holl randdeiliaid. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau.

O dan arweiniad gwybodus y pennaeth, mae’r staff yn darparu cwricwlwm sy’n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a’r medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Mae’r iaith Gymraeg wrth galon yr ysgol ac mae balchder y disgyblion at y Gymraeg yn amlwg. Maent yn defnyddio’r iaith yn gwbl naturiol yn ystod y dydd. Yn ogystal, mae defnydd y disgyblion o fedrau digidol o oed cynnar yn gryfder. Trwy brofiadau eang, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o hanes a diwylliant eu milltir sgwâr, y gymuned ehangach a Chymru. Er hyn, nid yw’r athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am grefyddau amrywiol yn ddigon aml.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth briodol o anghenion y disgyblion ac yn cynllunio’n bwrpasol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn a dangosant fwynhad yn eu dysgu. Maent yn cydweithio’n dda ac yn gefnogol iawn o’i gilydd tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfle i’r disgyblion adeiladu ar eu medrau dysgu annibynnol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella.

A1 Datblygu medrau annibynnol disgyblion

A2 Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o grefyddau gwahanol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Pennant yn gymuned hapus a theuluol sy’n darparu addysg a gofal o safon uchel ar gyfer ei disgyblion. Mae’r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n llwyddiannus i sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig.

Mae’r pennaeth yn fodel rôl arbennig sy’n cael ei pharchu a’i gwerthfawrogi gan holl randdeiliaid yr ysgol ac mae ei hangerdd tuag at sicrhau'r addysg a phrofiadau gorau posibl i bob disgybl yn amlwg. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn awyddus i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol yn dda iawn. Mae hyn yn nodwedd gref o’r ysgol.

Mae’r ymdeimlad o dîm ymysg y staff yn rhinwedd cadarn ac mae’r berthynas gyfeillgar rhyngddynt a’r disgyblion yn meithrin perthnasoedd gweithio da. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol. Mae staff yn darparu gofal, lles a darpariaeth werthfawr sy’n cefnogi’r disgyblion i fwynhau’r ysgol a gwneud cynnydd priodol yn eu medrau personol a chymdeithasol ynghyd â’u medrau dysgu.

Mae'r athrawon, ynghyd â chefnogaeth ddiwyd y cymorthyddion, yn adnabod y disgyblion yn dda. Maent yn casglu gwybodaeth gyffredinol am ddiddordebau, cynnydd a chyflawniadau’r disgyblion ac yn defnyddio’r wybodaeth yn fwriadus i gefnogi’r rhan fwyaf i wneud cynnydd cyson.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau ac yn eu cymhwyso’n gynyddol hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn fodelau iaith Gymraeg cadarn, ac, o ganlyniad, mae’r disgyblion yn caffael yr iaith yn gyflym o oed cynnar. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus yn fuan a dangosant falchder at yr iaith Gymraeg. Erbyn brig yr ysgol, maent yn hyderus wrth siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Er enghraifft, maent yn trefnu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau Plygain er mwyn dwysáu eu dealltwriaeth o draddodiadau'r ardal leol.

Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion ifancach yr ysgol yn creu taenlen a chyfrifo’r elw yn annibynnol wrth greu busnes cynhyrchu a gwerthu sanau.

**Ciplun: Gwella medrau digidol disgyblion**

Trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, mae staff wedi ymchwilio i arferion addysgu effeithiol i wella'r ddarpariaeth. Mae aelod o staff wedi gwerthuso medrau digidol y disgyblion ieuengaf ac wedi cyflwyno dulliau addysg a dysgu llwyddiannus. O ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith hynod gadarnhaol wrth gefnogi'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau digidol ymestynnol ar draws y meysydd dysgu.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso buddiol, ac ynghyd â chyfraniad gwybodus y llywodraethwyr, mae gan randdeiliaid yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y disgyblion. Yn ddiweddar maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion ar draws meysydd eraill o'u dysgu. O ganlyniad, bellach mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn yr ysgol wrth iddynt gyfrifo faint o silwair sydd ei angen ar wartheg i gynhyrchu gwahanol gyfaint o lefrith.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion drafod materion hanesyddol a moesol o fewn eu cymuned, yr ardal leol a'r byd ehangach. Trwy ymweliadau addysgol buddiol, mae disgyblion yn deall a gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant ffermio, wrth drafod effaith mewnforio cig ar y diwydiant cynhyrchu cynnyrch lleol. Mae'r cwricwlwm hefyd yn dechrau rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am gymunedau gwahanol wrth wrando ar hanesion trigolion o bentref yn Zimbabwe. Fodd bynnag, er bod y cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion  wneud cysylltiad pwrpasol â themâu arwyddocaol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddwysáu eu dealltwriaeth o wahanol gredoau a chrefyddau gwahanol.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu priodol i adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion ac i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o themau wahanol gyd-destunau'n ymhellach. Mae athrawon yn rhannu nod y sesiwn dysgu yn glir ac mae'r disgyblion yn gwybod yr hyn sy'n bwysig i'w gyflawni o fewn y gweithgaredd i lwyddo. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cyfrannu'n ddigon bwriadus at beth a sut yr hoffent ddysgu. Ar y cyfan, nid yw'r athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion.

Mae disgyblion yn dangos empathi at ei gilydd yn gwbl naturiol o fewn y ddarpariaeth gynhwysol. Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r modd mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf yn gwbl naturiol wrth ddysgu, yn y neuadd ginio, ac ar y buarth. Mae hyn yn meithrin a hyrwyddo medrau emosiynol aeddfed ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. At ei gilydd, trwy bwyllgorau llais y disgybl, mae medrau arwain y disgyblion yn datblygu'n addas. Mae gweithgareddau perthnasol yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, mae aelodau'r Criw Cymraeg wedi addurno'r blwch ffôn ym maes parcio'r pentref er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n newydd i'r Gymraeg i ddysgu'r iaith. Er, yn gyffredinol, nid yw aelodau'r holl bwyllgorau yn caffael barn a chasglu syniadau eu cyfoedion yn ddigon gweithredol er mwyn addasu a gwella'r ddarpariaeth.

Darperir amgylchedd dysgu addas gan staff sy'n hyrwyddo lles a dysgu'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, trwy gyfraniadau hael 'Ffrindiau'r Ysgol', mae staff a rhieni wedi cydweithio i ddarparu ardaloedd amrywiol yn yr amgylchedd dysgu allanol. Trwy hyn, mae disgyblion yn dechrau manteisio ar gyfleoedd perthnasol i ymdawelu ac ymgysylltu ymhellach â'u dysgu.

Mae'r pennaeth yn meithrin perthynas hynod effeithiol â rhieni, ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau'r ysgol yn amserol.

Er enghraifft, mae staff yn darparu gwybodaeth werthfawr am brofiadau dysgu a chynnydd disgyblion drwy broffiliau dysgu tymhorol. Gwneir ymdrech pwrpasol i gaffael barn rhieni am weithgarwch yr ysgol ac mae sicrhau perthynas waith gynhyrchiol â rhieni yn rhan bwysig o ethos yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/11/2024